YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] RHAGFYR, 1898. [RHIF 132.

Y LLONG A'R DYN.

(Parhad o'r Rhifyn diweddaf.)

MAE yn ddigon hawdd i nodi allan gymsyniadau y Beibl. Nid yw yn anffaeledig; nid oes dim byd dynol yn anffaeledig, ac mae y Beibl yn angerddol ddynol. Dyna lle mae ei allu ef. Eich cyfaill, sydd yn ffyddlon ac yn bur, y dyn a garwch fwyaf, ag y mae ei fywyd yn dwyn i chwi gysur a rhybudd, nerth a gwroldeb, ar yr hwn yr ymbwyswch bob dydd, at yr hwn yr ewch am gynghor a chydymdeimlad—'dyw e' ddim yn anffaeledig; gall wneyd camsyniadau. Ond a ro'wch chwi ef i fyny ar y cyfrif hyny? a wnewch chwi ei wrthod a'i wawdio? Gwnaeth Moses gamsyniadau mewn daeareg a seryddiaeth—camsyniadau ei oes; oblegid ni ddanfonodd Duw mohono i ddysgu seryddiaeth na daeareg. Ond dywedodd Moses, "'Does ond un Duw," pan oedd dynion yn addoli mil o dduwiau. Dywedodd: "Na ladrata; na chwenych eiddo dy gymydog; bydd letygar i ddyeithriaid; bydd dyner i'th greaduriaid." A thrwy y gorchymynion yma, fe gododd dynion i lefel uwch o fodolaeth. Mae yn ddigon hawdd i ddyn sy'n byw yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i nodi allan gamsyniadau Moses mewn materion o wyddoniaeth. Gall y plentyn gywiro camsyniadau Plato, Bacon, a Shakespeare; ond mae Shakespeare, Plato, a Bacon yn oleuadau mawrion i ni o hyd, fel yr oeddynt yn eu hoes eu hunain. Yr un fath, y mae y Beibl yn parhau i fod yn arweinydd ac yn ysbrydoliaeth i ni mewn moesau a chrefydd, fel ag y mae wedi bod am dair mil o flynyddau. 'Chawn ni ddim byd yn fwy tyner na'r Salmau. Yn ein tristwch a'n galar, yr ydym yn benthyca iaith Dafydd; yn ein horiau mwyaf siriol, yr ydym yn troi at y proffwydi; yn ein hamddifadrwydd, yr ydym yn dyfod at yr Hwn a ddywedodd,

"Chwi a gewch orphwysfa." Yn ein pechodau, 'chawn ni neb all ddwyn i ni y teimlad o faddeuant Duw fel ag y rhoddir ef trwy Iesu Grist. Bydded i'r beirniad gicio yn erbyn llythyren y Beibl, fe gaiff yr enaid gonest a didwyll ynddo drysorau o ddyddanwch a goleuni. Y dywediadau mawrion sydd wedi cael eu geni yn adegau uchaf bywyd, sydd wedi cael eu geni o brofiadau dyfnaf cewri, saint, a merthyron, yr addysgiadau moesol uchel sydd wedi dyfod o eneidiau pur—mae y rhai hyny yn myned i mewn i'n bywyd cyffredin ni, ac yn ein codi ni i safon uwch o argyhoeddiad. Paham mae safon pob dyn o iawnder yn uwch na'i ymddygiad ef, yn uwch na'i arferion o deimlo, o feddwl, a gweithredu? Mae gyda ni safon o ddyledswydd uwch na dim ydym eto wedi gyrhaedd. Sut y cawsom hi? Mae yn ddawn Dwyfol, yn dyfod i lawr atom o fywyd a meddyliau purach na'n rhai ni. Mae'r dyfroedd oerion a phur yma yn llifo i lawr o'r ucheldiroedd a'r mynyddoedd, ac yn sirioli y dyffrynoedd isel â'u defnynau byw. Ond mae genym ni gyd rywbeth ynom sydd yn ateb i'r fath eiriau. Pan darewir y tànau uchel yma, mae tant yn curo mewn cydgordiad yn mhob mynwes. Mae hyd yn nod y dorf gyffredin yn canmol, heb yn wybod iddynt, ryw syniad uchel a godidog y maent wedi glywed, yr hyn sy'n dangos nad yw dyn byth yn colli ei deimlad o'r hyn sy'n *right* a da. Tuedd dyn yw ymgodi. Mae uchelgais yn perthyn i'r natur ddynol. Nid oedd hyd yn nod cythreuliaid Milton ddim wedi colli eu huchelgais—eu tuedd tuag i fyny.

Nid yw dyn byth yn foddlon ond pan mae'n gwneuthur cynydd. Mae'n ceisio *ymddangos* yn foddlon, perswadio ei hunan ei fod yn foddlon; ond 'dyw e' ddim. Yr ydym i gyd yn hiraethu bod yn well nag ydym; a dyna'r prawf fod Duw yn bwriadu ein gwneyd ni yn well. Pan wnaeth Duw ni, gwnaeth ni iddo'i Hun, ac ni chaniata Efe i neb ohonom fethu cyflawni ei amcan.

Gellir gwneyd un gymhariaeth arall rhwng dyn â'r llong. Nid yw hyd yn nod y llyw, a'r cwmpas, a'r *chart* o werth dim os na ychwanegir rhywbeth arall. Beth yw hwnw? Gallu ysgogol. Mae y llong yn lledu ei hwyliau i'r gwynt, ac mae'r gwynt yn llanw'r hwyliau. 'All y morwr ddim creu y gwynt; y cyfan all ef wneyd yw lledu ei hwyl iddo. 'All ef ddim dyweyd yn mlaen llaw pwy ffordd y chwytha'r gwynt; ond mae yn myned maes o'r porthladd yn ffyddiog y bydd i'r gwynt gael ei anfon iddo.

Mae gallu, hefyd, uwchlaw dyn sydd yn ysgogi dyn. 'Dyn' ni ddim yn ysgogi ein hunain. Ysgogir ni gan Ysbryd Duw. Beth yw gweddi ond lledu ein hwyliau i ddal y gwynt? 'Dyw dyn ddim yn creu y gwynt; 'dyw ef ddim yn gwybod o ba le mae'n dyfod, nac i ba le mae'n myned. Mae yn unig yn codi ei hwyliau, ac yn cael ei yru ganddo.

Dyn crefyddol yw yr un sy'n credu mewn gallu uwchlaw ei hunan, a all roddi ysgogiad i'w fywyd, a'r hwn sydd, o ganlyniad, yn lledu ei hwyliau i ddal yr awel Ddwyfol hono. Pan wy'n

drist, 'rwy'n codi hwyliau gweddi i ddal awel cysur a dyddanwch; pan 'rwy'n wan, 'rwy'n lledu hwyliau ffydd i dderbyn y gwynt a'm dwg i yn mlaen ar ei fynwes; pan 'rwy'n bechadurus, 'rwy'n codi fy hwyliau i groesawu anadl maddeuol cariad Duw. Yn nghanol gofidiau a siomedigaethau amser, 'rwy'n agor fy nghalon i fy Nghyfaill Nefol, ac 'rwy'n cael dyddanwch. Mae'n *oda'* fod dynion yn credu yn y gwynt na welir, ond ddim yn anadl anweledig cariad Duw.

Neu, newidiwn y ffugyr, a thybiwn y llong i fod, nid yn llong hwyliau, ond yn agerlong fawr, gyda ffwrnes danllyd yn ei chalon, sydd yn curo yn gyson ddydd a nos fel calon dyn, gan yru y *piston* mawr i lawr a làn, a throi yr olwynion, nes peri i'r cyfan symud yn ardderchog. Nid gwynt sy'n ei symud yn awr, ond tân.

Mae y *steamer* gam yn mlaen ar y llong hwyliau. Ac felly mae'r dyn, yn enaid yr hwn mae Duw yn enyn tân cariad sydd yn llosgi ddydd a nos, ac yn ei symud ef yn erbyn llanw a'storm. Mae yn ddiamheu yn mlaen ar y dyn a all weddïo am help yn awr ac yn y man, ond nad oes tân cyson o gariad yn ei galon. Mae Duw yn dyfod yn y tân mewnol yn ogystal ag yn y gwynt allanol. Mae Ef yn danfon ysgogiadau oddifewn yn gystal ag oddiuchod. Yr ydym yn arfer gweddïau achlysurol; ond mae Duw yn ein dysgu i weddïo yn ddibaid trwy fywyd cyson o gariad tuag ato a thuag at Ei greaduriaid. Pryd hyny yr ydym yn teimlo Duw yn agos atom trwy y dydd. Pryd hyny nid ydym yn codi ein hwyliau ac yn eu tynu i lawr drachefn; ond yr ydym yn cael ein gyru yn mlaen gan gariad cyson ac anniflanol Duw yn ein calonau.

Wrth hyn 'rwy'n golygu, os ydym ni mewn heddwch mewnol â Duw, yn llawn o'i gariad, ac yn gwneuthur Ei ewyllys, nid yw hi ddim yn angenrheidiol i weddïo fel dyledswydd, neu ffurf, neu arferiad. 'Dyn' ni ddim yn gweddïo ar Dduw i'w foddhau Ef, ond i gael ein helpu a'n bendithio. Fel ag mae'r Sabbath wedi ei wneyd er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn y Sabbath, felly fe wnaed gweddi er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn gweddi. Nid yw gweddi ddim yn ddyledswydd, ond yn fraint ac yn gyfleusdra. Mae yn fwyd pan mae chwant bwyd arnom; yn ddwfr pan ydym yn sychedig. Nid yw yn ddyledswydd i fwyta pan nad oes eisieu bwyd arnom, nac i yfed pan nad oes syched arnom. Nac edrychwch byth ar weddi fel ffurf y dylech fyned trwyddi, na byth fel defod y mae Duw yn cael ei foddloni trwyddi. Na; gweddi yw siarad hapus plentyn â'i fam; cri am gysur, a chariad, a help, yr hon, os yw yn ddidwyll ac yn onest, y mae Duw yn sicr o'i hateb bob amser.

Wrth y ffugyr yma o long, ni a welwn yn mha beth mae gallu dynol yn gynwysedig, a beth yw ei derfynau. Nid oes gan y morwr ddim gallu dros y llong i'w gwneyd hi yn wahanol i'r hyn yw; nid oes ganddo ddim gallu dros y tònau a'r gwyntoedd i'w gwneyd hwy yn wahanol i'r hyn ydynt. Ond gall astudio y

chart i gael allan sut i hwylio; gall lywio ei long trwy y cwmpas yn ol ei chwrs; gall droi ei hwyliau at y gwynt; ac os yw yn gwneyd hyn i gyd yn iawn, mae yn abl, trwy ufuddhau deddf, i ddyfod yn rhydd. Mae yn rhydd i gwblhau ei waith, mor belled yn unig ag mae yn ufuddhau deddf Ddwyfol.

Nid oes gan ddyn, chwaith, ddim gallu dros gyfansoddiad ei gorff a'i feddwl i'w gwneyd hwy yn wahanol i'r hyn ydynt; dim gallu dros yr amgylchiadau yn y rhai y mae wedi cael ei osod. Ond gall ufuddhau i ddeddfau Duw, neu beidio ufuddhau iddynt; gall chwilio am wirionedd, neu ynte ei esgeuluso. Dedwydd yw y dyn sydd yn rhwyfo i rywle, ac nid yn ymollwg yn ddiamcan trwy fywyd. Y dynion mwyaf annedwydd ar wyneb daear yw y dynion nad oes ganddynt ddim i'w wneyd.

Mwy dedwydd yw y dyn sydd yn cael ei lywodraethu gan amcan uchel a godidog; y dyn sydd yn byw er cael gafael mewn rhagor o wirionedd, gwneyd mwy o dda, a chyflawni rhywbeth o wir werth yn y byd. Dedwydd yw efe, os yw yn gwybod ei fod yn gydweithiwr â Duw, yn gweithio gyda chariad Duw a Christ yn ei galon, ac felly yn gwneyd y bywyd daearol hwn yn un â'r bywyd sydd yn y nef. Fe ŵyr beth yw amcan ei fordaith dros foroedd ystormus bywyd; mae ganddo *chart* ei Feistr bendigedig i ymrwyfo wrthi; mae ganddo gwmpawd digyfnewid cydwybod fel ei arweinydd beunyddiol; ac mae ganddo Ysbryd Duw, anadl Ddwyfol cariad, i'w anog ef rhag ei flaen, a'i arwain ef i'r hafan ddymunol yn y wlad tuhwnt i'r llen.

J. F. C.

"AC WELE DA IAWN YDOEDD."

(GENESIS i. 31.)

MAE'R oll a wnelo Duw yn iawn,
Ac iawn Ei' wyllys fyth
Nad sut y trefna f'achos i,
Mae'm hyder yn ddilyth:
Fe yw fy Nuw,
Os tywyll yw
Fy ffordd, fe'm deil rhag myn'd ar goll,
Am hyn gadawaf Iddo'r oll.

Mae'r oll a wnel Efe yn iawn,
Goleuni 'mywyd yw,
Nis gall 'wyllysio ond sydd dda,
Hyderaf fyth yn Nuw:

Can's gwn yn dda
Daw'r oll a wna
I'r golwg, a cheir gwel'd yn glir
Mor ffyddlon oedd ar fôr a thir.

Mae'r oll a wnel Efe yn iawn,
Fan hon gorphwysa'm ffydd;
Er i ofidiau angeu droi
Yn gaddug nos fy nydd:
Fy Nhad â'i law
A'm dwg i draw
Yn ddyogel, fel nad äf ar goll,
Am hyn gadawaf Iddo'r oll.

(*Tachwedd*, 1896.) T. C. U. (*Cyf.*)

Y PARCH. EVAN GRIFFITHS, CAPEL SEION (1725-1802).

DYMA enw un a ddylai gael ei anwylu genym ni, Undodiaid, fel un fu'n dal i fyny faner rhyddfrydiaeth grefyddol, pan yr oedd hyny yn anmhoblogaidd, ac mewn ystyr yn beryglus hefyd. Un o'r hen Bresbyteriaid oedd, y rhai a safent dros ryddid, ac a ofalent fynychaf fod prydlesoedd eu capelau yn agored; gan adael i'w holafiaid yr un chwareu teg ag a fwynhaent hwy eu hunain, i chwilio am y Gwirionedd, ac i ddal wrtho; yn lle eu dal wrth hen gredöau a fyddent, o bosibl, wedi myned yn hen ffasiwn, ac yn ddim bellach ond rhwystr i ddyfod o hyd i wir grefydd.

Yr oedd Mr. Griffiths yn enedigol o rywle yn nghymydogaeth Dyffryn Aeron, yn sir Aberteifi. Cafodd addysg dda, ac ystyrid ef yn gyffredin yn ddyn dysgedig. Yr oedd wedi bod yn fyfyriwr yn Ngholeg Caerfyrddin, ac ar derfyn ei amser yno, urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1752, yn Nghapel Seion, yn nhlwyf Llanddarog, yn sir Gaerfyrddin, lle y parhaodd am ryw naner can' mlynedd yn fugail gofalus ac yn bregethwr poblogaidd a llwyddianus, er na ddarfu iddo ddianc y cyhuddiad trist o fod yn heretic. Nid oes amheuaeth nad oedd yn ddyn o syniadau rhyddfrydig, yn ddyn gonest a chydwybodol yn ei holl drafodaeth i'r byd, yn foneddwr trwyadl, ac yn Gristion pur; ond caffai ei alw yn Pelagiad, Ariad, Arminiad, Undodiad, oll ar y pryd yn enwau o'r mwyaf niweidiol i barch a phoblogrwydd dyn. Trwy'r cwbl, yr oedd yn cael ei garu gan ei gynulleidfa ei hun, a chan bawb a'i hadwaenent, a chan y rhai hyny yn oreu a'i hadwaenent yn oreu.

Yr oedd brwydrau duwinyddol yn gyffredin y dyddiau hyny, ac ymrestrai y gwahanol bleidiau ar y naill du neu'r llall yn fyddinoedd parod bob amser i ymosod ar eu gilydd, ac nid ar bechod, y gelyn cyffredin. Y dirgeledigaethau mawrion oeddynt fynychaf yn bynciau yr ymrafael a'r ymryson; ac fel rheol, po mwyaf anwybodus fyddai person, mwyaf penderfynol ac anffaeledig fyddai ar y pynciau mewn dadl. Ni fu erioed, efallai, fwy o hollti blew duwinyddol yn un oes, nac yn un lle, nag yn Nghymru yn y ganrif ddiweddaf. Fel rheol, yr oedd y gweinidogion Presbyteraidd yn ddynion dysgedig, ac yn rhy wylaidd i fod yn rhy benderfynol y naill ochr na'r llall.

Yn hytrach na hyny, anogent eu cynulleidfaoedd i onestrwydd ymddygiad ac i burdeb ymarweddiad. Ni sonient gymaint am benderfyniadau y Cynghor Boreu, am Etholedigaeth Ddiamodol, Parhad mewn Gras, a Dull Hanfod y Personau yn y Drindod. Nid hawdd bob amser fyddai penderfynu'r paham na wnaent. Gallai fod y rhesymau yn amrywio. Am rai gellid meddwl nad oeddynt yn credu ynddynt; am ereill eu bod yn eu hystyried hwnt i'w dealldwriaeth, neu nad oedd dim a fynent hwy â'r cyfryw bynciau un ffordd na'r llall, nad pa un ai gwir ai anwir oeddynt; ac felly eu bod yn cadw at bynciau mwy ymarferol ymddygiad cywir a Christionogol rhwng dyn a dyn, gan anog pawb i gariad brawdol ac i addoliad gwylaidd a gostyngedig y Tad Goreu. Carent heddwch a chymydogaeth dda, ac aberthent bob peth er sicrhau hyny. Gwnelid hyny, o bosibl, yn ormodol gan rai, oblegid fe ellir prynu heddwch weithiau yn rhy ddrud, ac fe wneir hyny yn ddiamheu pan, er mwyn heddwch, y gadewir i'r bobl syrthio i ddiofalwch ac anwybodaeth. Ni fydd hyny ond megys gosod y defaid mewn lle diamddiffyn i'r blaidd ymosod arnynt. Heb allu i wrthsefyll, byddant yn agored i gael eu llyncu gan y proffwyd newydd cyntaf a ddel heibio gyda digon o sêl ac ymdrech o blaid ei ffydd. Onid oes bob amser fwy o siawns am lwyddiant ffydd gyfeiliornus a fyddo'n cael ei phleidio'n wresog gan rai yn credu ynddi, nag am lwyddiant y ffydd buraf ac ardderchocaf a welodd y byd erioed, os yn cael ei dal gan broffeswyr llac, sydd yn ymddwyn fel pe byddent yn credu dim ynddi, ac heb wneuthur dim drosti. Yn rhyw fodd, fe aeth yr hen Bresbyteriaeth anwyl ac ardderchog, ar ol enill iddi ei hun barch ac urddas, i ddibynu gormod ar ei hurddas, nes myned yn ddiareb ei bod yn marw o urddas—"dying of dignity!" Y wers y mae Presbyteriaeth wedi ei adael yn etifeddiaeth i'r Undodiaid yw, Os ydych yn credu, llefarwch; os oes ffydd genych, gweithiwch drosti. "Ffydd heb weithredoedd, marw yw."

Y mae yn meddiant perthynas i Mr. Griffiths, yn Llanbedr, neu yr oedd yn ddiweddar iawn, hen Feibl, ac yn ysgrifenedig ar y wynebddalen y geiriau hyn: "Evan Griffiths's Book, given him on condition of his settling in Wales to preach the Gospel, A.D. 1750." Carem i'r geiriau hyn gael sylw manwl. Meddai bob cymhwysderau i lanw cylch pwysicach, ac i enill tâl rhagorach;

ond arosodd yn Nghymru, gan ddewis yn hytrach oddef adfyd wrth wasanaethu ei genedl ei hun a'i geraint gartref, na myned i Loegr, a chael mwyniant cyflog fawr, ac o bosibl anghofio ei gyff a'i genedl yn llwyr. Mae yn dda fod rhai yn meddu digon o'r ysbryd gwladgarol, ac o'r hunanymwadiad Cristionogol, i'w galluogi i weled a thosturio dros angen a thlodi pobl Dduw gartref, ac felly i aros yno i weini arnynt.

Evan Griffiths yw awdwr rhif 316 yn Emynau Mawl a Gweddi, yn dechreu, "Rho'wch glust, chwi ie'nctyd glan." Mae yn chwech penill yn Llyfr Emynau Josiah Rees, Gellionen, 1796. Ceir hefyd yn llyfr Mr. Rees emyn arall o chwech penill o'i waith, yn dechreu, "Wele y Bôd trag'wyddol pur." Ceir yr un emyn yn Nghasgliad y Parch. John Jones, Aberdar, ond yn dechreu yno, "Rho'wch glod i'r Bôd trag'wyddol pur" (tudal. 249.)

Yn *Llyfryddiaeth y Cymry* (tudal. 560), llyfr gwerthfawr y diweddar Barch. William Rowlands (Gwilym Lleyn), ceir a ganlyn :—"Golwg fèr ar yr Hanes Ysgrythyrol oll, gyda Hanes yr Eglwys Iuddewig o ddiwedd yr Hen Destament hyd at Grist, a'r proffwydoliaethau penaf perthynol iddo; wedi eu hegluro'n ddigonol mewn ffordd o holiad ac ateb. Yn nghydag amryw nodau ar Hanes a Chrefydd y Patriarchiaid, yr Iuddewon, a'r Cristionogion, ac ar Ddeddfau, Llywodraeth, Sectau, Defodau, a 'Sgrifeniadau yr Iuddewon. Gan I. Watts, D.D. A gyfieithwyd i'r Gymraeg gan y Parchedig E. Griffiths. At yr hwn y chwanegwyd Llechres o'r Amseroedd yr ysgrifenwyd Llyfrau yr Ysgrythyr, a'r pethau hynotaf o Ddechreuad y Byd hyd Ddinystr Jerusalem. Allan o waith yr enwog Osterwald."

"Caerfyrddin: Argraffwyd ac ar werth gan Ioan Ross. 1775."

"Evan Griffiths ydoedd weinidog yr Ymneillduwyr yn Nghapel Seion, yn mhlwyf Llanddarog, yn sir Gaerfyrddin, lle yr ordeiniwyd ef yn 1752. Arminiad y dywedid ei fod o barth ei olygiadau athrawiaethol, er y mynai rhai ei gyhuddo o Undodiaeth; ond credir nad oes sail i'r cyhuddiadau hyny. Bu yno yn weinidog llwyddianus hyd ei farwolaeth, ysbaid haner can' mlynedd; felly dechreuodd weinidogaethu yno pan oedd ond 17 oed. Bu farw Ionawr 28ain, 1802, yn 77 oed."

Cyhuddid Mr. Samuel Jones hefyd, rhagflaenydd Mr. Griffiths yn Nghapel Seion, o Arminiaeth; a gwyddys fod Mr. D. L. Jones, sef "Jones y Tutor," un o olynyddion Mr. Griffiths, yr hwn oedd yn weinidog yno o 1814 hyd 1830, a'r hwn a bregethodd bregeth angladd Dafis, Castell Hywel, yn Ariad proffesedig. Y mae amrywiaeth yn yr awdurdodau yn nghylch dyddiad marwolaeth Mr. Griffiths; fe ddywedir ddwywaith yn *Hanes yr Eglwysi Annibynol*, Cyf. III., tudal. 507, 508, mai Ionawr 25ain y bu farw. Y mae rhyw ddyryswch arall gyda'i oedran. O'r braidd y credwn iddo gael ei ordeinio yn 17 oed. Tebyg mai yn y 77 y mae y gwall.

R. J. J.

O.Y.—Mewn llythyr ataf, dyddiedig, "Pontyberem, Mawrth

10fed, 1884," y mae Mr. William Griffiths, yr hwn a fu yn dderbyniwr o'r YMOFYNYDD am flynyddoedd lawer [ac yn parhau i'w dderbyn o hyd.—GOL.], yn dywedyd fel hyn:—"Ar ei gareg fedd y mae yr hyn a ganlyn yn ysgrifenedig: 'In memory of the Rev. Evan Griffiths, who died January 25th, 1802, being a minister of this chapel for over 50 years.'" Ni roddir ei oedran gan Mr. W. Griffiths. Wn i ddim a ydyw ar y gareg.—*R. J. J.*

Y CYRDDAU CHWARTEROL.

YR oedd y Cyrddau Chwarterol diweddaf, a gynaliwyd yn Mhantdefaid ar y dyddiau Mercher a Iau, Hydref 26ain a'r 27ain, yn ddyddorol ar lawer ystyr; ond, efallai, y bydd dau reswm yn ddigon i'w dwyn yn mlaen yn bresenol er dangos paham y dylai y Cyrddau hyn sefyll allan fel un o'r cyfnodau pwysig yn ein hanes fel Undodiaid. Yn gyntaf, yr oeddynt, fel yr awgrymir yn mhenawd y nodiadau hyn, yn Gyrddau Chwarterol yr enwad yn Nghymru; ac yn ail, gwasanaethent fel cyrddau agoriadol y capel newydd prydferth y mae y cyfeillion a arferant addoli yn y lle hwn wedi adeiladu yn lle yr hen gapel oedd wedi myned i edrych yn wael ac yn ddiraen iawn. Dymunwn longyfarch yn galonog eglwys barchus Pantdefaid, yn weinidog ac yn braidd, am y brwdfrydedd y maent wedi amlygu wrth godi, nid yn unig gapel newydd, ond hefyd neuadd fawr, gyfleus, yn yr hon y cynelir yr Ysgol Sul, a chyfarfodydd ereill perthynol i'r eglwys, oddigerth y cyrddau arferol ar y Sul. Ffaith a lefara yn uchel am ein ffyddlondeb a'n gweithgarwch fel enwad bychan yn Nghymru yw, fod cynifer o'n capeli ni wedi eu hadnewyddu, neu eu llwyr adeiladu o'r newydd, yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf, a'r mwyafrif mawr, os nad yr oll ohonynt, yn ddiddyled. Y diweddaf o'r capeli ydynt wedi eu hail-adeiladu yw Pantdefaid, a digon i'w dyweyd ei fod yn ddestlus ac yn gymfforddus dros ben.

Nid y Cyrddau Chwarterol oedd yr addoliad cyntaf a ddygwyd yn mlaen yn y capel newydd, gan iddo gael ei gysegru y Sul cyn hyny trwy i dyrfa fawr ymgynull iddo a chymeryd rhan yn un o'r cyfarfodydd mwyaf rhagorol a bendigedig y syrth i ran dyn i fod yn bresenol ynddo.

Ail tranoeth i gynaliad y cwrdd cyntaf yn yr adeilad newydd, ymddangosodd nodiad yn un o bapyrau dyddiol Caerdydd, yn rhoi desgrifiad o orymdaith ddwys a difrifol, a'n cludai ni yn ol ar edyn dychymyg at yr amser pan y byddai y gorymdeithiau yma o grefyddwyr selog yn bethau mwy cynefin nag ydynt yn bresenol. Yn y nodiad dan sylw, teithiai y brodyr a'r chwiorydd,

yn cael eu blaenori gan dri gweinidog da eu gair, o'r neuadd—lle yr aethpwyd drwy y rhanau defosiynol—i'r capel, lle y bwriedid cario yn mlaen y gweddill o'r gwasanaeth. Os darfu i ysgrifenydd y nodiad groniclo yn ffyddlon ac yn gywir ffrwyth cynadleddau cyntaf rhai o'r brodyr a ddygent ran o gyfrifoldeb y gwaith, cyfnewidiad yn y trefniadau dechreuol sydd yn ateb am y ffaith fod yr hanes, fel yr ymddangosodd, wedi ei liwio hytrach yn ormodol.

Traddodwyd y bregeth gyntaf yn y deml newydd gan y Parch. W. James, B.A., Y.H., a phregeth odidog iawn oedd, yn cael ei phregethu yn un o hwyliau goreu y pregethwr. Siaradwyd yn y cwrdd hwn hefyd gan gyn-weinidog yr eglwys, sef y Parch. T. Thomas, Y.H., yr hwn, o bosibl, a allai gofio hanes y ddeadell yn mhellach yn ol na nemawr i un oedd yn wyddfodol; a chan y gweinidog ieuanc presenol—Mr. Arthur Thomas. Tipyn yn ddryghinog oedd y tywydd, yr hyn sydd yn anfantais fawr mewn gwlad lle mae gan y bobl ffordd bell o'u cartref i'r capel; ond er gwaethaf gwynt a gwlaw, daeth cynulleidfaoedd ardderchog yn nghyd, nes yr oedd y capel yn orlawn, ac ar amserau yn llifo drosodd, gan y methai lluaws gael lle.

Dechreuwyd y cyfarfod nos Fercher gan y Parch. J. E. Jones, gweinidog newydd-apwyntiedig yr eglwys Undodaidd yn Nghwmbach. Traddodwyd dwy bregeth rymus iawn, y naill gan y Parch. D. Rees, Cwm Rhondda, a'r llall gan y Parch. T. J. Jenkins, Gellionen.

Foreu dydd Iau, cynaliwyd cwrdd i ymdrin â materion perthynol i'r Gymdeithas Undodaidd yn Nghymru, o dan lywyddiaeth y Parch. R. C. Jones; ond gan y gwn fod llaw arall, fwy celfydd na'm llaw i, yn myned i ysgrifenu hanes y cwrdd hwn, ni wnaf fanylu. Dechreuwyd y gwasanaeth y boreu hwn gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca; a phregethwyd gan y pregethwr penodedig, sef y Parch. Jenkyn Thomas, Aberdar. Yr oedd hon yn bregeth odidog, addas i'r amgylchiad, ac yn amheuthyn yn nhob ystyr.

Cyn dechreu ar weithrediadau cyfarfod y prydnawn, darfu i'r an fwyaf o'r gweinidogion, yn nghyda nifer o wŷr blaenllaw yr Eglwys, sefyll, rai ohonynt, a rhai yn eistedd, o flaen *camera* y Cymro cenedlgarol o Liverpool—Mr. John Thomas, *The Cambrian Gallery*, er tynu eu llun, yn nghyda llun y capel. Gobeithio y bydd y darllenydd fi pan y dywedaf nad yw yn un elw yn y byd i mi i hysbysu pob un a garo gael copi o'r darlun hwn, fod yn ddichonadwy posibl iddo wneyd hyny trwy anfon swllt at y *photographer*, sydd yn ei weinidog Pantdefaid.

Arweiniwyd yn y rhanau agoriadol yn nghyfarfod y prydnawn gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin; a phregethwyd gan y Parchn. J. E. Jenkins, Dowlais, a Hathren Davies.

Yn yr hwyr, darllenwyd a gweddïwyd gan y Parch. E. E. Jenkins, Capelygroes; a dygwyd y cyfarfodydd i derfyniad rhagorol iawn gyda dwy bregeth effeithiol dros ben, y naill gan y

Parch. R. C. Jones, Llanbedr, a'r llall gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca.

Priodol yw crybwyll fod yn bresenol o blith y gweinidogion, yn ychwanegol at y rhai a enwyd eisoes, y Parchn. T. Arthur Thomas, gweinidog y lle; T. Thomas, Y.H.; W. James, B.A.; Pennant Phillips (A.), Llandysul; D. Evans, Cribin; ac ereill, o bosibl, y methaf yn awr eu cofio.

Y PWYLLGOR.

Cyfarfu y Pwyllgor yn y capel am 9.30 boreu ddydd Iau; y Llywydd—y Parch. R. C. Jones, Llanbedr—yn y gadair. Daeth amryw yn nghyd, heblaw y gweinidogion oeddynt yn bresenol yn y cyfarfodydd.

Yr oedd y gwaith yn ymwneyd, gan mwyaf, âg Adran Ysgol Sul y Gymdeithas. Gwnaed y trefniadau ar gyfer yr arholiad nesaf, yr hwn a benderfynwyd i gymeryd lle prydnawn y dydd Mercher cyntaf yn Mai, 1899. Dewiswyd arholwyr, a threfnwyd iddynt ymweled â phob ysgol ar wahan, gyda'r eithriad fod Capel Bryn a Sychnant yn cael eu harholi gyda'u gilydd, a Chapel-ygroes ac Alltyplaca gyda'u gilydd yn ysgoldy y blaenaf. Gosodwyd ar Ysgrifenydd sir Forganwg—y Parch. J. Hathren Davies—i alw Pwyllgor yn nghyd i wneyd cyffelyb drefniadau yn y sir hono.

Penderfynwyd fod Safon 4 i gael ei holi yn Rhan II. o'r *Gwersi*, sydd newydd ddyfod allan o'r Wasg; Safon 3, yr un maes; Safon 2, penodau 7 ac 8 yn *Holwyddoreg* y Parch. W. Evans; a Safon 1, yn y Gofyniadau a'r Atebion ar ddiwedd Rhan II. o'r *Gwersi*.

Ar ol cyfarfod y Pwyllgor, mae wedi cael ei awgrymu i ni y dylid gwneyd mwy o wahaniaeth rhwng Safonau 4 a 3; mewn gair, y dylai y Safon uchaf gael mwy o waith i barotoi na'r un islaw iddi. Yr ydym yn cymeradwyo yr awgrym, ac am unwaith, yn ngwyneb pwysigrwydd y mater, yn beiddio cynyg, heb gadarnhad y Pwyllgor, fod rhan o lyfryn y Proffeswr Adeney, *Pa Fodd i Ddarllen y Beibl?* sydd newydd ei gyfieithu i'r Gymraeg, i gael ei ychwanegu at Safon 4—sef y rhan gyntaf ohono, tudalenau 1-32. Mae y gwaith hwn yn Saesoneg wedi ei ledaenu wrth y miloedd; ac er yn waith poblogaidd, mae i fyny â'r addysg ddiweddaraf ar y Beibl. Nid Undodwr yw yr awdwr, ond mae ysbryd y llyfr mewn cydymdeimlad hollol â'r golygiadau rhyddfrydig am y Beibl ydym ni wedi bod yn arferol i sefyll arnynt. Ceir y llyfryn Cymraeg yn rhydd drwy y *post* am swllt oddiwrth y *Welsh National Press Co.*, Carnarvon.

Er mwyn symbylu pobl ieuainc ein hysgolion i dalu sylw neillduol i waith y Safon yma, heblaw y tystysgrifau arferol, mae rhai cyfeillion yn nghymydogaeth Llandysul yn cynyg punt o

wobrwyon i'r rhai a basiant oreu yn Safon 4. Y wobr flaenaf, *Gweithiau Ceiriog*, yn ddwy gyfrol; yr ail, *Traethodau Llenyddol* Dr. Edwards, Bala; y trydydd, *Rhys Lewis;* y pedwerydd, *Canwyll y Cymry;* y pumed, *Caban F'ewythr Twm.* Carem pe byddai ereill yn siroedd Aberteifi a Morganwg yn ychwanegu at y gwobrwyon—peth hawdd fyddai ail-drefnu y rhestr.

Er mwyn i'r atebion gael eu hystyried gan yr un arholwyr, a pherffaith chwareu teg gael ei ddangos yn nosbarthiad y gwobrwyon, bydd yn ofynol fod yr arholiad yn Safon 4 yn un ysgrifenedig. Gobeithiwn y cymerir yr awgrym yma i fyny mewn modd brwdfrydig, ac y cawn weled nifer luosog o ymgeiswyr yn Safon 4, fel yn y Safonau ereill, yn arholiad y flwyddyn nesaf.

W. JAMES, } *Ysgn. yr*
A. THOMAS, } *Adran.*

Tachwedd 20fed, 1898.

NODION A SYLWADAU.

MEWN rhifyn diweddar o *Celt* Llundain, ceir y frawddeg ganlynol: "Bydd rhai pobl yn awyddus i wybod a oes dylanwad gan athrawon ar eu dysgyblion; oherwydd, os oes, nis gall awyrgylch Coleg Caerfyrddin fod yn iachus iawn i'r pregethwyr ieuainc a gyfodir yno." Y rheswm am hyn, yn debygol, yw fod dau o'r athrawon yn Undodiaid, ac fod myfyrwyr Undodaidd yn cael derbyniad yno. Mae'n amlwg, felly, fod golygydd y papyr uchod—ymddengys y nodyn yn y golofn olygyddol—yn ystyried fod yr Undodwr, fel y pren upas gynt, yn wenwyn marwol i bob un ddaw o fewn cylch ei ddylanwad. Dyddorol fyddai cael tystiolaeth myfyrwyr Caerfyrddin—gorphenol a phresenol—parthed dylanwad y proffeswyr a'r myfyrwyr Undodaidd arnynt. Efallai y byddai y cyfryw dystiolaeth yn ddatguddiad i olygydd y *Celt*.

——:o:——

WELE un enwad arall ar y maes yn ychwanegol at y llu sydd ar y maes eisoes. Mae y Parch. George Walters, diweddar weinidog ar yr eglwys Undodaidd yn Sydney, Awstralia, wedi ymneillduo oddiwrth yr Undodiaid, ac wedi ffurfio eglwys newydd. Yr enw rydd arni yw, "Eglwys Newydd Awstralia;" a'r rheswm rydd dros ei ymneillduad yw, nad oedd yn cael digon o ryddid gyda'r Undodiaid.

——:o:——

Sut i Ddarllen y Beibl ydyw enw llyfryn bychan sydd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar.

Enw yr awdwr Saesoneg yw Proff. Adeney. Dywedir fod y llyfryn yn barod wedi cael ei fabwysiadu fel gwerslyfr mewn rhai Ysgolion Sul perthynol i'r gwahanol enwadau Iawnffyddol. Mae yn trin y mater mewn iaith mor syml, ac yn gosod o flaen y darllenydd ffrwyth ymchwiliadau diweddaraf ar y pwnc, fel y mae yn llyfr addas neillduol i ddynion ieuainc (a phawb, o ran hyny) sydd am wybod beth yw y Beibl, a pha fodd i'w ddarllen.

——:o:——

Tebyg y cynelir y Gynadledd i ystyried y cwestiwn o leihau byddinoedd y gwledydd, yr hwn a ddygwyd i sylw gan Gylchlythyr Ymherawdwr Rwsia, tua dechreu y flwyddyn newydd. Mae bron pob Llywodraeth Ewropaidd wedi anfon atebiad i'r gwahoddiad a anfonwyd iddynt i dd'od i Gynadledd o'r fath; ac y maent oll yn gadarnhaol. Er hyny, ni ddylid bod yn rhy obeithgar y deillia unrhyw ffrwyth uniongyrchol o hyn; ond nis gall lai na dylanwadu yn ffafr heddwch cyffredinol yn y diwedd. Hyfryd yw meddwl nad yw cynygiad y Tzar wedi cael derbyniad mwy gwresog yn un wlad nag yn y wlad hon. Mae lluaws o gyfarfodydd wedi eu cynal eisoes i'w bleidio; ac y mae y Wasg bron yn ddieithriad yn ei ffafr.

——:o:——

Dywedwyd uchod fod teimlad trigolion y wlad yn iawn mewn perthynas i'r dymunoldeb o leihau byddinoedd y gwledydd. Rhaid gwneyd un eithriad, fodd bynag. Mae Henaduriaeth Dundee wedi datgan ei phenderfyniad i beidio pleidio Cylchlythyr y Tzar—17 yn erbyn, a 7 dros hyny. Felly, gwell gan y "Parchedigion" hyn dywallt gwaed a rhyfel na heddwch. Dylid ar unwaith ffurfio cymdeithas i anfon cenadon i blith Presbyteriaid rhyfelgar Ysgotland.

——:o:——

Mae un anghyfiawnder dybryd ag y mae Ymneillduwyr wedi dyoddef oddiwrtho hyd yma ar gael ei symud. Ar y 1af o Ebrill, 1899, daw Deddf Priodasau newydd i rym, yr hon fydd yn gwneyd i ffwrdd â phresenoldeb y cofrestrydd mewn priodasau a weinyddir mewn capelau Ymneillduol. Efallai y rhydd rhywun gyfarwyddiadau sut i wneyd mewn rhifyn dyfodol. Mae'n wir fod y Ddeddf yn anmherffaith, a thebyg y cyfyd llawer o anhawsderau mewn canlyniad i hyn. Ond mor bell ag y bydd yn bosibl, dylid cymeryd mantais ar y Ddeddf fel y mae, gan obeithio y symudir yr anmherffeithderau bob yn dipyn.

——:o:——

Un o'r trychinebau mwyaf fyddai rhyfel rhwng Lloegr a Ffrainc, a theimlid ei effeithiau am amser maith. Er eu hanmherffeithderau, mae y ddwy wlad y fwyaf rhydd yn y byd, yn ddiamheu; ac ynddynt hwy y gwelir gwareiddiad yn ei fan

uchelaf heddyw. Heblaw y golled ar fywydau ac eiddo a achosid gan ryfel rhyngddynt, fe grëid teimladau mor elyniaethus rhyngddynt fel na ellid yn hawdd eu symud ymaith. Yn mhob un o'r ddwy wlad, ceir dosbarth o ddynion fel pe ar eu heithaf i'w gyru yn benben—y rhai sydd yn perthyn i'r dosbarth swyddogol yn y fyddin; ond, er gwaethaf hyn, mae teimlad mwyafrif mawr pobl y ddwy wlad yn iawn, a gobeithio y bydd y teimladau hyn yn ddigon cryf i gadw rhyfel yn mhell.

——:o:——

MAE Ymneillduwyr Lloegr yn dechreu dihuno o'u cysgadrwydd mewn perthynas i addysg a chwestiynau pwysig ereill sydd yn gofyn sylw. Oddeutu haner y mis diweddaf, ffurfiwyd "Cymdeithas Boliticaidd yr Ymneillduwyr," prif amcan yr hon (yn ol y penderfyniadau a basiwyd yn y cyfarfod uchod), ydyw sicrhau cydweithrediad Ymneillduwyr ar bob cwestiwn yn dal perthynas âg iawnderau yr Eglwysi Rhyddion, dwyn i fewn i'r Senedd fesurau er symud unrhyw gamwri yr achwynir o'i blegid gan Ymneillduwyr, sicrhau rhyddid yn sefydliadau addysgol y wlad, cynorthwyo unrhyw ymdrech a wneir i Ddadgysylltu a Dadwaddoli yr Eglwys, &c. Mae gwaith mawr, felly, wedi ei dori allan; ond y mae yn waith ag y mae yn llawn bryd i Ymneillduwyr i ddeffroi yn ei gylch. Y cwestiwn y bwriedir rhoddi y sylw cyntaf iddo yw cwestiwn Addysg yn ei wahanol agweddau.

SYLWEDYDD.

MADDEUANT.

"MI waeddaf *yn awr*, Maddau,—Nid oedi
A didach mewn beiau;
Rhy hwyr fydd edifarhau—y fynyd
Y bo ni'n sengyd ar ben nos angau.—*G. Gwenog.*

Y MAE yr englyn yn brydferth iawn, ac yn deilwng o'i drysori yn y cof. Mae tinc ei gynghanedd yn swynol; ond y mae rhai yn amheu cywirdeb ei syniad, ac felly gadawer i ni gael sylwi yn fanwl arno. Beth ydyw'r rychau welir arno? Wel, y mwyaf pwysig a glywais i yn cael i nodi yw awgrymiad y drydedd linell—y gall edifeirwch fod yn hy hwyr. Gwell hwyr na hwyrach, a gwell hwyrach na byth; gwell na'r cwbl, er mwyn deall yr englyn, yw edrych arno fel yfanwaith, yn lle dal ar yr ymadrodd a'i gymeryd allan o'i ysylltiad. Gwers yr englyn yw, Peidiwch oedi. Yn awr yw yr mser cymeradwy, heddyw yw dydd yr iachawdwriaeth. Felly n awr, mi waeddaf, Maddau. Tori'r cysylltiad â phechod ar nwaith sydd oreu, ac nid oedi a didach mewn beiau. Y mae

yn mwriad pawb i waeddi maddau, 'fory; ond pa reswm sydd i feddwl y daw yn hawddach 'fory i ddywedyd maddau na'i ddywedyd ar unwaith? Nid oes neb, dybiwn, yn meddwl parhau i bechu hyd ddiwedd ei einioes; eithr meddwl, yn hytrach, mae y rhan fwyaf i edifarhau yfory, heb feddwl fawr na ddaw yfory hwnw byth i'w rhan. Ni ddaw edifeirwch o alw am dano yn unig, ac ni fydd edifarhau un tipyn yn hawddach yfory nag yw heddyw. Nid yw 'fory yn eiddo i neb; felly doethineb yw gwrando ar lais dyledswydd yn awr; dechreu heddyw i beidio gwneuthur drwg a dysgu gwneuthur daioni. Gwir iawn y cedwir drws trugaredd yn agored, ond nid yw hyny yn un rheswm da i'r drygionus barhau i oedi a didach mewn beiau. "Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd, ac Efe a gymer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, ac Efe a arbed yn helaeth." Nid yw yr englyn yn mhell o'i le, ddim agos cymaint ag yw y pechadur.

T. C. U.

LLINELLAU COFFADWRIAETHOL AM ELIZABETH, GWRAIG DAVID EVANS, PENCAEAUISAF, PENCAREG, GER LLANBEDR,

Yr hon a fu farw Mehefin 10fed, 1898, yn 57 mlwydd oed, ac a gladdwyd yn Nghapelygroes.

OW! wele daeth hen frenin braw, i roi ei law ar Liza,
'Does man o'r byd nad yw yn myn'd i ddwyn ein ffrindiau hoffa';
Pencaeau mad, Pencareg, sydd yn teimlo'r dydd yn chwerw,
Pob un â'i fron trwy'r teulu'n grin, i'r firain un i farw.

Mam dda, mam ddoeth, a phriod fwyn, a ga'dd ei dwyn gan angau,
A'i theulu hoff sy'n teimlo'n chwith ei rhoi yn mhlith y beddau;
Ni fuodd un mwy llawn ei iles yn mhlith holl restri gwragedd,
Ac nid oedd hefyd yn ei phlwy' un feddai fwy amynedd.

Mae dagrau brwd yn treiglo grudd ei phriod prudd sydd hebddi;
Ac O! mae'n crynu fel y dail, am fachlud haul ei deulu;
Parlysu wnaeth y teulu llon, gan frad y dòn ddisymwth,
Yn deilchion aeth eu gobaith hwy y daethai trwy ei hadwyth!

Mae'r cwmwl du yn awr yn toi ac arllwys o'i gynwysion,
Ac nid oes fodd i ffoi o'r lli' heb esgyn i'r uchelion;
Mae yno'n awyr las heb len, fry yn yr Eden ucha',
A phawb mewn hoen, heb frad, na briw, ger bron y Duw Jehofa.

Fe welodd orthrymderau lu, a thywydd du eithafol;
Gwnaeth nychdod gloi ei llwybrau llad rhag pob mwynhad daearol;
Rhyw dair-ar-ddeg o flwyddi'n gaeth yn goddef aeth bob diwrnod,
A thyna sydd i bawb yn syn, bu'n dawel yn y trallod.

Er nad oedd hoen yn eiddo hon, yr oedd ei bron yn 'splenydd;
Hi feddai ddawn y cynghor call i arbed gwallau beunydd;
Er bod fel hyn y cyfnod maith fe drefnai waith y teulu,
A phwy a wyr pa faint oedd nerth, neu rhan o werth peth felly.

Ei chynghor olaf yn y byd oedd em fwy drud na'r ddaear:
Ewch, ewch, fy mhlant, a'm priod gwiw, i winllan Duw yn gynar.
Gwrandawodd Duw y weddi gun, yn mron yn uniongyrchol;
Mae'r plant yn dechreu ffoi ar frys i mewn i'r llys diangol.

Eiddunwn hedd i'w henaid mwy, 'rol croesi trwy'r Iorddonen,
Ac fel yr angel gwyn fo'i hoen, yn nghwmni'r Oen yn llawen;
Yn troi mewn gwawl trag'wyddol ddydd, gobeithiwn bydd hi mwyach,
O fewn i'r lle sy'n gysur llawn, a llawer iawn amgenach.

Tancoed, Pencareg. T. MORGAN.

YR HEN GLOC.

YR oedd pobpeth o fewn i'r bwthyn yn lan ac yn gysurus dros ben. Taflai y tân siriol ei oleuni dysglaer ar y muriau; tywynai yn danbaid ar yr hen gloc wyth niwrnod a safai yn nghongl yr ystafell, a phelydrai ar wyneb 'mamgu, yr hon a eisteddai, gan wau ei hosan, yn yr hen gadair â'i chefn uchel. Gorweddai Tom a Harri ar yr aelwyd, a gwnaent obenydd o Carlo, y ci mawr, blewog, yr hwn oedd wedi bod yn gyfaill ac yn gydymaith iddynt er cyn iddynt allu cerdd d. Oddiallan disgynai yr eira yn gawodydd tewion, a rhuai y gwynt yn nghorn y simdde. Yr oedd y ddau grwtyn wedi bod allan yn yr eira; ac yn awr, ar ol swper blasus o afalau wedi eu rhostio a bara a llaeth, yr oeddynt yn y tywair i wrando ar un o ystraeon difyr y famgu.

"Dyma y 'stori yr arferai fy mam dd'weyd wrthyf"—fel hyn y dechreuai—"a dygwyddodd hyn pan nad oedd hi ond geneth fechan iawn Yn adeg un o'r brwydrau aml hyny a dorent ar neddwch gwahanol ranau o Gymru, yn enwedig yn ystod yr ymgiprys a fu rhwng Olifer Cromwell a'r brenin masw a fynai fod yn ben, pe gallai, y cymerodd yr amgylchiad le. Dyma'r amser

yr ymheidiai milwyr a swyddogion o uchel âch yn ein trefi a'n pentrefi, pryd y llosgid tai, ac y gorfodid gwŷr—yn hen ac yn ieuainc—i ymguddio mewn coedwigoedd a lleoedd anghysbell ereill, rhag ofn cael eu gwneyd yn garcharorion.

"Yr oedd tad fy mam yn berchen ar fferm fawr ychydig tuallan i'r pentref. Aethai efe, yn nghyda dau o'i feibion, i'r rhyfel, gan adael fy mamgu gartref gyda thri phlentyn, yr hynaf o ba rai oedd crwtyn o'r un oedran a Harri. Harri oedd enw hwnw, hefyd. Er nad oedd ond pedair-ar-ddeg oed, yr oedd yn grwtyn cryf, gwrol. a thàl ar ei oedran.

"Ar noson oer yn mis Rhagfyr, pan oedd yr eira yn gaenen dew dros y wlad, eisteddai y fam a'r plant o gylch y tân, a rhedai eu meddyliau yn aml at y rhai anwyl oeddynt yn y gwersyll, neu, o bosibl, yn nghanol brwydr. Pan oeddynt fel hyn yn magu rhyw drist feddyliau, clywent ergyd trwm ar y drws, yr hwn a swniai trwy yr holl ystafell; ac heb aros i'r drws gael ei agor, wele gymydog agos yn rhuthro i mewn, a golwg wyllt, gyffrous iawn arno.

"'Mi ddeuais i'ch rhybuddio,' meddai yn gynhyrfus, 'ac i dd'weyd fod yna blaid fawr o filwyr newydd ddyfod i fewn i'r dref, ac y maent yn gorfodi y trigolion i roi llety iddynt yn eu tai. Mae brwydr newydd gael ei hymladd, a chymerwyd nifer fawr o blaid y brenin yn garcharorion. Mae yn well i Harri ddianc, os gall efe. Rhaid i mi frysio i roi rhybudd i ereill."

"Gyda ei fod yn gadael y tŷ, clywai y teulu swn carnau meirch yn y pellder.

"'Cerdd, fy machgen, cyn y bo yn rhy ddiweddar,' meddai y fam. 'Fe amddiffyna yr Arglwydd y diniwed. Cerdd ar frys.'

"''Alla' i byth a'ch gadael chwi a'm chwiorydd bychain,' ebai y bachgen; 'dywedodd fy nhad wrthyf am ofalu am danoch, ac yma mae fy lle i fod. Nid oes ofn arnaf.'

"Yn nes ac yn nes delai swn y meirch.

"'O, fy mhlentyn,' llefai y fam yn wallgof bron wrth glywed y swn yn dynesu, 'rhaid i ti fyn'd; ti dori fy nghalon os arosi yma.'

"Nis gallaf, 'mam,' ebai y llanc, yn benderfynol; 'mae fy lle i yma gyda chwi.'

"Gyda'r gair, dyma'r hen gloc yn taro yr awr, a gallent erbyn hyn glywed lleisiau y milwyr. Daeth meddylddrych di-symwth i ben y fam; rhedodd, ac agorodd ddrws yr hen gloc.

"'Brysia, Harri,' meddai, 'mi a'th guddiaf yn yr hen gloc; wnan' 'nhw byth ddychymygu am edrych yno.'

"Gwthiodd ef i'r cloc, a chauodd y drws. Nid oedd yno ond prin ddigon o le i'r llanc i sefyll ar ei draed. Safai y cloc yn y cornel; ac yn ei gefn yr oedd twll crwn, wedi ei fwyta rywbryd gan lygoden. Bendithiai Harri y lygoden hono, am roddi iddo hyd yn nod gymaint o le a'r twll hwn er cael ychydig o awyr i'w anadlu. Sibrydai y fam weddi daer, tra y ceisiai, ar yr un pryd,

dawelu y ddwy eneth fechan oeddynt bron wedi eu dyrysu gan fraw, ac eisteddodd y tair i lawr i nyddu ac i wau. Yn fuan, clywid y milwyr yn chwerthin yn uchel wrth ddisgyn oddiar eu ceffylau, ac esgyn y grisiau at y drws. Wrth agor y drws, gwelai y fam, trwy help y goleu a dywynai ar y fintai o'r ystafell, mai swyddogion oedd y rhan fwyaf ohonynt, a llamai ei chalon o lawenydd wrth sylwi ar eu hosgo foneddigaidd.

"'Rhaid i ni gael swper yma heno, wraig dda,' meddai y blaenaf ohonynt, gyda eu bod wedi croesi rhiniog y drws, 'a chyn gynted ag y galloch, oblegid y mae gyda ni daith bell i'w theithio cyn y boreu.'

"'Fe wnaiff y ddwy ferch fach a minau bobpeth a allom i chwi,' meddai y fam yn dawel ac yn foesgar.

"'Dyma le bach cysurus,' meddai y swyddog, gan daflu ei lygaid dros yr ystafell. "A ydych chwi ar ochr y brenin?'

"'Mae Brenin y breninoedd o'm tu i,' ebai'r fam, ac archai y ddwy ferch fach, ar yr un pryd, i hulio'r ford ar gyfer yr ymwelwyr nad oedd fawr croesaw iddynt.

"Nid hir y bu y milwyr newynog cyn llwyr fwyta yr ymborth blasus a roddasid ger eu bron; ond er byred oedd yr amser, ymddangosai yn wythnos i'r teulu trallodus. Pa cyhyd y gallasai ei bachgen fyw yn ei ymguddfan gul? Esgynai aml i weddi ddwys at Dad yr ysbrydoedd cyhyd ag y bu hi yn gweini ar y gwŷr.

"'Pa le mae eich gwr? ai nid oes meibion genych?' gofynai y cadben, wrth godi oddiwrth y bwrdd.

"'Mae fy ngwr a'm meibion yn ymladd dros eu gwlad; a'r Arglwydd a roddo iddynt fuddugoliaeth.'

"Ymdaenodd gwrid ddigllon dros wyneb y cadben. 'Nythaid o wrthryfelwyr, gallwn feddwl. Buasai yn well i chwi, wraig, i beidio llefaru y geiriau yna. Mi a chwiliaf y tŷ, er mwyn bod yn sicr nad oes neb o'r epil wedi eu gadael gartref. Caiff dau o'm milwyr aros yma i wylied na ddianga neb maes trwy y drws, ac ewch chwithau gyda'r lleill i ddangos i ni y ffordd.'

"Ni ddaeth y fam erioed i wybod sut y bu hi byw yn ystod yr haner awr bryderus hono, yn cael ei gorfodi i fyned o ystafell i ystafell gan y dynion dideimlad hyn, yn crynu wrth bob swn a glywai o'r gegin; bu yn mron a rhoddi fyny ei hysbryd pan y meddyliai am ei bachgen yn ei ymguddfan, nas gwyddai hi pa fynyd y ceid gafael ynddo. Ond aethai y cyfwng drosodd o'r diwedd; ni esgorodd yr ymchwil ar ddim, a gadawodd y swyddogion y tŷ.

"Wrth fod y milwr olaf yn cyrhaedd y drws, wele glawr y cloc yn ymagor yn araf, a Harri yn dyfod allan i ganol yr ystafell. Safodd fel pe wedi ei syfrdanu wrth weled y milwr ieuanc nad oedd amgen na llanc prydweddol, oddeutu yr un oedran a brawd hynaf Harri.

"'Fy machgen, fy machgen,' ebai y fam drallodus. 'Ni ddygwch fy mhlentyn oddiarnaf? Efallai fod gyda chwithau fam gartref yn gweddïo drosoch y fynyd hon. Meddyliwch am dani,

ac arbedwch fam arall.' Penliniodd wrth ei draed. 'O! 'chaiff fy mhlentyn ddim ymadael â'i fam.'

"Cyfododd y swyddog ieuanc hi yn dyner; safai deigryn yn ei lygad glas: 'Na, nis bradychaf chwi,' meddai; 'mae genyf fam gartref.'

"Dododd ei law wrth ei gapan, a rhedodd allan i ymuno â'i gyd-filwyr; a gwasgodd Harri ei fam at ei fynwes."

Yr oedd y tân yn mron wedi diffodd pan orphenodd fy mamgu ei 'stori. Yr oedd yn bryd myned i'r gwely. Ond parhäi yr hen gloc i gerdded, fel y gwnaeth trwy'r blynyddau, ac i adrodd wrth bob to newydd yn hanes y teulu y 'stori hon o wroldeb, a ffydd, a gwladgarwch.

M. B. F.

MANION AC HANESION.

LLWYN.—Nos Fawrth, Hydref 25ain, bu y Parch. D. Rees yn pregethu yma i gynulleidfa odidog, ar achlysur y cyfarfod diolchgarwch. Arweiniwyd yn y gwasanaeth defosiynol gan y Parch J. Hathren Davies, Cefncoed. Casglwyd yma hefyd at y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain.

BWLCHYFADFA.—Nos Lun, Hydref 24ain, cynaliodd yr eglwys hon ei chyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf. Daethai torf luosog yn nghyd, ac ymddangosai pawb yn foddhaol iawn â'r gweithrediadau. Dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a phregethwyd gan y Parch. D. Rees y Rhondda. Ar ddiwedd yr oedfa, casglwyd at y Gymdeithas Undodaidd yn Llundain.

MR. WILLIAM RATHBONE.—Yn y *Teulu* ymddangosodd, ychydig wythnosau yn ol, ddyfyniadau helaeth o Ddyddlyfr y pregethwr enwog, y Parch. Hugh Stowell Brown. Dyma un o'r cyfryw:—"Nid wyf yn amheu dim, pe deuai Iesu Grist i Liverpool, y byddai iddo weled yn William Rathbone, er mai Undodwr ydyw, lawer gwell dysgybl iddo nag mewn cant namyn un o'r rhai a alwant eu hunain yn Gristionogion, ïe, ac yn well na finau, yn siwr."—[Ai ni eilw Mr. Rathbone ei hun yn Gristion, tybed?]

TREGARON.—Nos Fawrth, y laf cyfisol, talodd y Parch. Wm. Griffiths, Ph.D., B.D., Pontypridd, cynrychiolydd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor, ymweliad â'r lle uchod, a bu y brodyr Wesleyaidd mor garedig a rhoddi benthyg eu capel iddo i gynal gwasanaeth crefyddol. Testyn ei bregeth oedd, "Onid oedd raid i'r Crist ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?" Luc xxiv. 26. (Gwel Cyf. Diwygiedig). Cafwyd cynulliad rhagorol, a gwrandawiad astud. Da genym weled ysbryd mor eangfrydig yn cael ei ddangos gan y gwahanol enwadau Cristionogol at eu gilydd.

LLUNDAIN.—Hydref 30ain, talodd y Parch. Hathren Davies ymweliad â'r Cymry ffyddlon a arferant addoli bob nos Sul yn yr Essex Hall. Er fod yr hin yn arw iawn, daeth torf dda, er hyny, yn nghyd, a chafwyd cyfarfod hwylus dros ben. Mae yn ddiamheu fod llawer iawn o fechgyn a merched ieuainc yn wasgaredig ar hyd y ddinas boblog hon, nad ydynt, o bosibl, yn gwybod am y cyfarfod Cymreig hwn yn mysg Undodiaid Llundain. Y rhieni a'r perthynasau ereill yn Nghymru, ac yn Undodiaid, sydd â phlant neu dylwyth ganddynt yn Llundain, a wnaent garedigrwydd mawr pe danfonent air am y cyfryw i ysgrifenydd y

ıudiad—Mr. Josh. Davies, 45, Weyıouth Road, Portland Place, yr hwn ydd yn hynod weithgar gyda'r achos. Rhydd Mr. Davies, a'i gyfeill on ienainc n yr Essex Hall, groesaw calonog i ıawb, a byddant yn falch i weled lyeithriaid yn ymweled â hwynt.

Capel-y-Bryn.—Cynaliodd Ysgol Sul capel uchod ei gwyl dê flynyddol dydd Gwener, Tachwedd 11eg. Cafwyd hin ldymunol yn nghanol tywydd garw, a ;wnaeth y nifer fawr o blant a phobl newn oed oedd wedi dyfod yn nghyd ›erffaith chwareu teg â'r tê a'r bara ›rith o lawer math oedd wedi cael eu ›arotoi mewn helaethrwydd ar eu cyfer. Yn yr hwyr, ar ol digoni angenrheidiau y corff, cafwyd gwledd i'r meddwl yn y cyfarfod adloniadol a gynaliwyd. Llenwid y ddwy swydd o gadeirydd ac ırweinydd yn fedrus iawn gan y gweindog, y Parch. John Davies. Yr oedd y capel yn orlawn, ac am oddeutu tair ıwr a haner aethpwyd trwy raglen faith › adroddiadau, dadleuon, canu, &c., yr ıon oedd yn ddigon amrywiol i foddoni chwaeth pawb, debygem. Aeth y ›lant a phawb ereill trwy eu gwaith yn ıynod o dda. Mae clod mawr yn ddyedus i bawb a wnaethant eu rhan er gwneyd y tê a'r cyfarfod mor llwyddanus, ac, yn neilldnol, dymunem dalu liolch wresog i'r rhai tuallan i'r eglwys ı roisant eu cynorthwy. Melus, moes ›to.

Cwmbach. — Cynaliwyd cyfarfodydd ›efydlu Mr. J. E. Jones, Llanbedr, yn weinidog eglwys Undodaidd y lle uchod ır y Sul a'r Llun, Hydref 16eg a'r 17eg, 1898, pryd y cafwyd cyfarfodydd da lros ben, er fod y tywydd yn auffafriol awn. Pregethwyd y Siars i'r gweinidog euanc gan y Parch. R. C Jones, Llanbedr, yn hynod o effeithiol a tharwiadol ar yr achlysur, oddiwrth y ›eiriau "Gweinidog da i Iesu Grist." Pregethwyd y Siars i'r gynulleidfa gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, yn ıynod o darawiadol. Pe bai pawb yn ›ario allan yr hyn a ddywedodd, fe yddai ein capelau yn llawn, yn envedig ar foreu dydd Sul. Cafodd y weinidog dderbyniad cynes i'r lle gan y Parch. D. M. Davies (A.) Yn yr hwyr, ›regethwyd gan y Parchn. L. Williams, Rhydygwin, a John Davies, Alltyplaca. Cafwyd dwy bregeth odidog, a gobeithio y bydd dylanwad eu nerth a'u hysbrydoliaeth yn cael lle yn nghalonau y gwrandawyr yn gyffredinol. Hefyd, fe gafwyd dau anerchiad, gan Mr. D. Eiddil Jones, Cefn, a'r Parch. J. J. George, Aberdar, a therfynwyd y cyfarfodydd llwyddianus hyn drwy weddi gan y Parch. L. Williams. Y mae clod yn ddyledus i Miss Morgan, Abernantygroes, am chwareu mor ardderchog wrth yr *harmonium.*

Aberystwyth.—Mae y Parchn. Wm. Griffiths, Ph.D., B.D., a Geo. St. Clair, F.G.S. (gynt o Gaerdydd), newydd fod yn traddodi cyfres o bregethau a darlithiau yn Aberystwyth, o dan nawdd y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor. Dechreuodd y Dr. ar ei waith ar y Sul, yr 28ain o Hydref. Yn y prydnawn pregethodd yn Saesoneg, oddiar y testyn, "Myfi a'r Tad, Un ydym," ac yn yr hwyr yn Gymraeg, oddiar y geiriau, "Ffydd heb weithredoedd marw yw." Y dyddiau Iau a Gwener canlynol, traddododd Mr. St. Clair ei ddarlithiau ar y pynciau, "Nature, Scripture, and God," a "Sacrifice and Scapegoats." Ac ar y Sul, y 6ed o Dachwedd, dygodd Dr. Griffiths y gyfres cyfarfodydd i derfyniad drwy bregethu yn y prydnawn yn Saesoneg, oddiar y geiriau, "Yr Hwn, yn nyddiau ei gnawd, g edi iddo trwy lefain cryf la dagrau offrwm gweddïau ac erfyniau," &c. Ac yn yr hwyr yn Gymraeg, oddiar y geiriau, "Onid oedd raid i'r Crist ddyoddef y pethau hyn, a myned i mewn i'w ogoniant?" Nid oedd y cynulliadau yn rhyw luosog iawn, ac yr oedd hyny i raddau pell i'w gyfrif i waith y *billposter* yn esgeuluso rhoddi yr hysbysrwydd priodol i'r cyfarfodydd, ac i'r ffaith fod yna gymaint o groesatdyniadau yn dygwydd bod yn y dref ar y pryd. Fodd bynag, er mai bychan oedd rhai o'r cynulliadau, eto, yr oeddent yn gynulliadau deallus a dysgedig, am fod mwyafrif y gwyddfodolion yn gynwysedig o efrydwyr y Brifysgol; a gall yr ysgrifenydd sicrhau na fu ymweliad Dr. Griffiths a Mr. St. Clair â'r lle yn ofer. Prin mae eisieu ychwanegu fod y ddau bregethwr yn eu hwyliau goreu. Cynaliwyd yr oll o'r cyfarfodydd yn yr Assembly Rooms.

LLWYDDIANT. — Bydd yn llawenydd mawr gan gyfeillion Mr. Daniel James Davies, mab Mr. Thomas Davies, Blaencourt, Llanbedr, un o aelodau mwyaf blaenllaw Capel-y-Bryn, i ddeall ei fod wedi cyrhaedd yr anrhydedd o raddio yn B.A. yn Mhrifysgol Llundain. Mae Mr. Davies wedi cael gyrfa lwyddianus iawn. Llwyddodd i basio y *Matriculation Examination* yn y dosbarth blaenaf, o Ysgol Ramadegol y Parch. D. Evans, pryd hyny yn Llanybyther. Yna aeth i Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth. Oddiyno pasiodd yr *Intermediate B.A. Examination*, gydag anrhydedd, mewn Saesoneg; ac yn awr gwelwn ei enw ar res yr ymgeiswyr llwyddianus am y *Final B.A. Examination*. Nid yn unig mae wedi bod yn llafurus gyda'i lyfrau, ond mae hefyd wedi gwneyd yn barod gryn lawer o waith dros Undodiaeth. Pan gartref, mynycha yn rheolaidd yr Ysgol Sabbathol a'r gwasanaeth crefyddol yn Nghapel y-Bryn, o'r hon eglwys y mae yn aelod. Teimla ddyddordeb cyflawn yn yr Ysgol Sul, a gweithia yn egniol drosti. Pan yn Aberystwyth gweithreda Mr. W. Samuel Jones ac yntau fel cynrychiolwyr Undodiaeth yn nhref eu Coleg; a gall Dr. Griffiths a'r Parch. Geo. St. Clair, F.G.S., siarad yn uchel am y gwaith da maent wedi wneyd yno. Llongyfarchwn ef ar ei lwyddiant. Eiddunwn iddo ddyfodol dysglaer, a hyderwn y gwna eto weithio yr un mor ddiflino dros Undodiaeth.

PRIODAS.

TACHWEDD 19eg, yn Nghaeronen, gan y Parch. R. C. Jones, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Mr. Davies, Llanfair, a cher bron Mr. David Evans, cofrestrydd, Llanybyther, Mr. David Jones, Llanybyther, â Miss Mary Jones, Llwynfedw, Cellan.

MARWGOFION.

TACHWEDD 16eg, yn 60 mlwydd oed, Ann, gwraig John Davies, Gwarcefel Arms, Llandysul. Er yn gwaelu er's peth amser, yr oedd yn chwith iawn gan luaws mawr o gyfeillion glywed am farwolaeth y fenyw dda, garedig, a rhinweddol hon; perthynai i *dype* o gariter ag mae lle i ofni nad yw ef ddim yn cynyddu yn y wlad. Yr oedd yn un a feiddiai ddyweyd ei barn yn onest a didderbynwyneb; ac yn ei hymddygiad yr oedd yn uniawn ac yn *drue* hyd y gwaelod. Cymeriadau cedyrn ac egwyddorol fel hyn yw halen cymdeithas, a'n gweddi yw ar fod rhagor ohonynt yn codi i fyny i lenwi y bylchau sydd yn gwaghau o flwyddyn i flwyddyn. Yr oedd yn hen aelod yn Llwynrhydowen, ac mewn cydymdeimlad gwresog â'r eglwys hono yn y treialon blin ag mae wedi myned trwyddynt. Duw pob dyddanwch fyddo yn nodded ac yn gynaliaeth i'w phriod a'i hunig fab yn eu galar dwys. Claddwyd hi yn mynwent Carmel, capel yr Annibynwyr, y dydd Sadwrn canlynol, y Parchn. A. Thomas a W. James yn gwasanaethu.

Joseph Williams Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Glebeland. Merthyr.